# Cofnodion Grŵp Trawsbleidiol

Cofnodion cyfarfod:

| | |
|---|---|
| Teitl y grŵp trawsbleidiol: | Digidol |
| Dyddiad y cyfarfod: | 8.3.23 |
| Lleoliad: | Rhithwir |

Yn bresennol:

| Enw: | Teitl: |
|---|---|
| Rhun ap Iorwerth | |
| Rhys Hughes | |
| Charlie Jones | |
| Pryderi ap Rhisiart | |
| Paul Sandham | |
| Abi Phillips | |

| | |
|---|---|
| Angela Jones | |
| Arwel Owen | |
| Carwyn Edwards | |
| Dana Williams | |
| Daniel Cunliffe | |
| Deian ap Rhisiart | |
| Delyth Prys | |
| Elen Foulkes | |

| | |
|---|---|
| Emily Roberts | |
| Gareth Davies | |
| Gwion Llwyd | |
| Ioan Bellin | |
| Keith Jones | |

| | |
|---|---|
| Luke Rowlands | |
| Nia Morgan | |

| | |
|---|---|
| Peter Williams | |
| Steven Jones | |
| Teifi Jones | |
| Josh Smith | |
| | |
| | |
| | |
| | |

Ymddiheuriadau:

| Enw: | Teitl: |
|---|---|
| Jim Jones | |
| Klaire Hodgson | |
| | |

Crynodeb o'r cyfarfod:

| **Eitemau ar yr agenda** | **Camau i'w cymryd** |
|---|---|
| - Croeso - Rhun ap Iorwerth (RaI)<br><br>Agorodd RaI y sesiwn drwy groesawu pawb i'r cyfarfod a chrynhoi'r agenda ar gyfer y diwrnod. Gofynnodd RaI a oedd pawb yn fodlon bod y sesiwn yn cael ei recordio at ddibenion cofnodi, a **chytunodd** pawb eu bod yn fodlon**.** Cafodd thema'r diwrnod ei | |

| | |
|---|---|
| nodi, sef ystyried ble y gall manwerthu orgyffwrdd â thechnoleg ddigidol, twristiaeth, a diwylliannau gwahanol. | |
| – Stori Môn – Animated Technologies<br><br>Soniodd Teifi Jones (TJ) o Gyngor Ynys Môn am y cydweithio cyffrous sy’n digwydd rhwng y cyngor ac Animated Technologies. Mae hwn yn gymhwysiad realiti estynedig (AR) sy'n gweithio ar draws 100 pwynt o ddiddordeb ar yr ynys, gyda’r nod o rannu mwy o wybodaeth â thwristiaid am yr ardal leol. Mae hanesydd lleol wedi bod yn rhan o’r gwaith a wnaed ar yr ap hwn. Yn anffodus, nid oedd modd i Klaire Hodgson (KH) o Animated Technologies ymuno â’r cyfarfod. Felly, siaradodd Carwyn Edwards (CE) o M-SParc am y prosiect ar ran y cwmni, gan fod M-SParc wedi bod yn cydweithio ar y gwaith.<br><br>Agorwyd y llawr i gwestiynau:<br><br>Peter Williams (PW) – A oes angen WiFi neu gysylltiad symudol arnoch er mwyn sicrhau bod yr ap yn gweithio?<br><br>CE – Ar hyn o bryd, rydych yn lawrlwytho'r ap cyfan, ac yna gallwch ei ddefnyddio drwy WiFi.<br><br>Daniel Cunliffe (DC) – Pa gyllid parhaus sydd gennych chi, o ystyried y ffaith bod cyllid ar gael ar gyfer datblygu’r dechnoleg ond nid ar gyfer ei chynnal?<br><br>CE – Cyllid o’r Gronfa Adfywio Cymunedol. Felly, bydd y cyllid ar gael am flwyddyn gyfan. Bydd costau ynghlwm wrth ychwanegu cynnwys ychwanegol. Un enghraifft o hyn yw’r diwydiant gemau, lle mae cynnwys a hysbysebion yn cael eu hychwanegu.<br><br>Luke Rowlands (LR) – Sut y gwnaethoch chi fynd ati i ddatblygu’r ap? A gafodd ei ddatblygu ar sail strwythur a gymeradwywyd ymlaen llaw, neu a oedd y cod yn newydd?<br><br>CE – Cafodd ei ddatblygu gan ddefnyddio Unity a nifer o lyfrgelloedd. Mae fframwaith eisoes ar waith ar gyfer yr ap hwn er mwyn lleihau costau.<br><br>Diolchodd RaI i’r siaradwyr ac i bawb arall am eu cwestiynau. | |
| – Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol – Keith Jones (KJ)<br><br>Cafwyd trafodaeth ar y gwaith y mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ei wneud ym maes technoleg. Mae’r raddfa yn enfawr o ran yr ymwelwyr (dyma'r term sy’n cael ei ddefnyddio ar gyfer twristiaeth). Mae’r ochr ddigidol yn amlwg o ran yr angen am dwristiaeth. Mae gwaith yn cael ei wneud gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol er mwyn ceisio casglu cymaint o ddata â phosibl. Beth yw’r pethau sydd wedi newid yn y blynyddoedd diwethaf, ym mhrofiad yr ymddiriedolaeth? Y sgil COVID, mae gan lawer mwy o bobl bresenoldeb ar-lein – cynnydd aruthrol wedi’i weld. Mae'r ymddiriedolaeth yn gobeithio cyflawni sero net erbyn 2030. Bydd yn rhoi llai o gynnwys ar-lein, ond bydd y cynnwys o ansawdd uwch. Trafodwyd y prosiect y mae’r ymddiriedolaeth yn gweithio arno ar gyfer gwella profiad y cwsmer. Mae’n arbrofi gyda gwahanol apiau a'r ‘rhyngrwyd pethau’. Mae hyn yn caniatáu iddo symud pobl i safleoedd eraill os oes pwysau ar y safle dan sylw. Bydd yn ailgydio ym maes realiti estynedig – technoleg nad oedd yn gweithio tua 10 mlynedd yn ôl. Cafwyd gwelliannau yn y dechnoleg. | |

| | |
|---|---|
| RaI – Diolchodd i Keith, ac aeth ymlaen i sôn am ddadl a gafwyd yn y Senedd, gan rannu linc yn y blwch sgwrsio: https://digidoladata.blog.llyw.cymru/2022/02/23/o-wenyn-i-goed-a-phopeth-yn-y-canol-cymrun-defnyddior-rhyngrwyd-pethau/<br><br>Agorwyd y llawr i gwestiynau:<br><br>CE – A yw hyn yn rhywbeth rydych chi wedi'i wneud yn fewnol neu gyda chwmnïau bach?<br><br>KJ – Yn fewnol yn bennaf, gan ein bod am sicrhau cysondeb. Rydym yn gweithio gyda darparwyr eraill ar yr ymchwil.<br><br>CE – O ran yr ymchwil, beth sydd nesaf?<br><br>KJ – Rydym yn gweithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gasglu data a deall o ble mae pobl yn dod. Yn ogystal, rydym am ddeall mwy am ansawdd y llwybrau, sut i gael mwy o'r data, a sut mae'r tywydd ac ati yn dylanwadu ar ein data. | |
| – Paul Sandham (PS) – Kodergarten<br><br>Cafwyd trosolwg cyflym o'r cwmni gan PS. Dywedodd fod y cwmni wedi creu ystod o brosiectau dros y blynyddoedd, a soniodd am y sefydliadau y mae wedi bod yn gweithio gyda nhw. Cafwyd trafodaeth am un o'r cynhyrchion diweddaraf, sef Siop.io. Mae'n gweithio gyda busnesau e-fasnach lleol yn dilyn y pandemig COVID, ac ar y prosiect ynghylch lleoedd clyfar, sy'n brosiect a weithredir ar y cyd â Menter Môn ac a ariennir gan y Llywodraeth. Yn y dyfodol, bydd Siop.io yn edrych ar gefnogi llety gwyliau. Mae eisoes yn cydweithio â llawer o bobl ar brosiectau cydweithredol i greu archeb. Cafwyd trafodaeth ynghylch Patrwm, sy'n gweithio gyda thoreth o bwyntiau data ar lefydd clyfar – rhwydwaith WiFi sy'n casglu data ynghylch gwelededd rhwydweithiau symudol yn yr ardal ac yn eu cyfrifo er mwyn cael data ynghylch hyd yr amser y maent wedi bod yno, ac yn y blaen. Cafodd ei ddileu yn unol â GDPR. Mae synwyryddion ar gyfer y rhyngrwyd pethau wedi bod o gymorth o ran archebu a sganio'r data. Mae 22 o byrth LoRaWAN wedi'u gwasgaru. Dangoswyd enghreifftiau o'r data. Cafodd y system Porth ei hintegreiddio, sef system ddata ddwyieithog ar gyfer rheoli e-byst, a hynny er mwyn galluogi cymunedau i sganio a chreu ymgyrchoedd e-bost cymunedol. Y cam nesaf i Patrwm yw gweithio gyda'r Eisteddfod. *Raspberry Shake* – beth yw hwn? Mae'n cael ei ddefnyddio i olrhain daeargrynfeydd, gan ddefnyddio'r sŵn i fonitro traffig a nifer y bobl. Trafodwyd effaith y tywydd a sut mae synwyryddion tywydd yn cael eu defnyddio.<br><br>Gofynnwyd a fyddai modd cadw'r cwestiynau tan y diwedd er mwyn rhoi cyfle i'r cyflwynydd wneud ei gyflwyniad. | |
| – Gwion Llwyd (Perchennog a Chyfarwyddwr Dioni Self Catering) (GLl)<br><br>Soniodd am ei fusnesau, sef bythynnod hunanarlwyo yng Nghymru, ac am ei orffennol. Soniodd am y cymwysiadau y mae'n eu defnyddio i wneud y gwaith hwn yn effeithiol. Soniodd am y cymwysiadau sydd wedi gweithio'n dda i'w fusnesau. Awgrymodd defnyddio'r cymwysiadau a ganlyn: Google Workspace, Drive, Moneypenny, Evernote, Microsoft 360, To Do List, Starlink. Rhoddodd bwyslais ar YouTube a TikTok, Google ac AdWords, o ran y defnydd o'r gyllideb farchnata. Dywedodd ei fod yn defnyddio Google Analytics yn helaeth ac yn dibynnu ar y data. Mae hyd at 60 y cant o'r bobl sy'n ymweld | |

| | |
|---|---|
| â'r wefan yn fenywod. Cafwyd trafodaeth am gyfryngau cymdeithasol a llwyddiant y busnes wrth ddefnyddio Meta, gan fod ei holl hysbysebu yn cael ei wneud drwy'r gyfrwng honno. Mae popeth yn seiliedig ar rwydweithiau ar gyfer y dyfodol. Rhaid gwneud cysylltiadau digidol ar gyfer y dyfodol. Mae'r rhwystrau o ran cael mynediad at ddeallusrwydd artiffisial wedi gostwng yn aruthrol yn y blynyddoedd diwethaf. Mae pryderon ynghylch newid hinsawdd – gallai hyn arwain at gyfleoedd twristiaeth os yw'r tymheredd yn cynhesu.<br><br>RaI – Diolchodd i'r siaradwr, gan nodi'r modd y mae'n ceisio gwthio'r sector twristiaeth tuag at fod yn gynaliadwy<br><br>CE – Faint o'r pethau yr ydych wedi sôn amdanynt heddiw sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd gan y sefydliadau twristiaeth cyffredinol, yn eich barn chi?<br><br>GLl – Mae mynediad yn broblem. Nid oes gan ffermwyr ifanc fynediad at farchnadoedd digidol na gwasanaethau band eang.<br><br>PS – Mewn ardaloedd sy'n boblogaidd ymhlith twristiaid, fel Beddgelert, nhw yw'r bobl sy'n ein hannog i'w defnyddio ac yn ein gorfodi i ddefnyddio pethau newydd. Mae busnesau yn ymwybodol iawn o bethau fel hyn. A yw'r cynnig arbennig ym Meddgelert ym mis Mawrth yn achosi cynnydd yn y niferoedd sy'n ymweld â'r ardal ac yn defnyddio technoleg fel Google Analytics?<br><br>Arwel Owen (AO) – O ran y data rydych yn eu casglu, a ydych chi'n ystyried ble'r ydych yn eu storio a'u cadw?<br><br>PS – Mae'n fater y mae angen inni ei ystyried, ond rydym yn cydymffurfio â'r rheolau ar ddiogelu data. Rydym am chwilio am ddarparwr i leihau ein hallyriadau carbon.<br><br>CE – Soniodd am syniadau a oedd yn ymwneud â sgwrs a gafodd gydag Ofcom rai blynyddoedd yn ôl. | |

| | |
|---|---|
| – Cloi'r cyfarfod<br><br>RaI – *Dywedodd fod cysylltedd a sgiliau yn broblem, a soniodd am y cymorth sydd ei angen. Dywedodd ei fod yn gobeithio y bydd pawb yn cadw mewn cysylltiad, a diolchoch i'r holl siaradwyr a phawb arall unwaith eto.*<br><br>Gofynnodd am awgrymiadau ar gyfer themâu yn y dyfodol – seiberddiogelwch, o bosibl. Dywedodd y byddai mewn cysylltiad ynglŷn â'r cyfarfod nesaf. | |